**Ail agor Ysgol Pentraeth wythnos yn cychwyn 29ain o Fehefin**

**Trefniadau Wythnos 1 a**

Fel y gwyddoch mi fydd yr ysgol yn ail agor i bob oedran ag eithrio disgyblion oed meithrin, wythnos yn cychwyn Mehefin y 29ain ond oherwydd y rheolau ymbellhau cymdeithasol o 2m rydym yn gorfod cyfyngu ar y niferoedd ym mhob dosbarth wrth reswm .Cyfnod er mwyn cael plant yn ôl i drefn a chyfarfod ffrindiau ydy'r cyfnod yma.Mae'r pwyslais ar les plant.Mae'n gyfnod hefyd i ni fel ysgol ddarganfod a datrys unrhyw broblemau iechyd a diogewlch sydd yn codi ar gyfer y tymor nesaf, pan fyddwn yn ehangu ar y ddarpariaeth. I ddisgyblion blwyddyn 6 mae'n gyfnod i baratoi ar gyfer trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd yn ogystal a chymdeithasu.

Mi fydd Canolfan Gofal ar agor i blant gweithwyr allweddol o 8yb i 5 yh o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd yn cael ei gynnal yn Neuadd yr ysgol. Os bydd y galw am lefydd yn y ganolfan yn codi uwchlaw 8 bydd rhaid cau y Dosbarth Derbyn, mae'r ganolfan yn flaenoriaeth. Iechyd a diogelwch disgyblion a staff sydd wrth wraidd trefniadau'r ysgol. Maent yn cydymffurfio â canllawiau ac awgrymiadau Llywodraeth Cymru. Cymerwch amser i ddarllen y camau rydym wedi eu cymryd cyn gwneud penderfyniad i yrru eich plentyn/plant i'r ysgol a'i peidio. Ar ôl gwneud cwblhewch yr holiadur(un ar gyfer pob plentyn) cyn 9yb bore Gwener ogydd.

**Camau**

- Byddwn amrywio amser agor a cau oherwydd natur yr adeilad a cynllun llwybrau yr ysgol. Bydd rhaid i bawb ddilyn y rheolau yma, mae rhaid i oedolion a disgyblion gadw at y rheol 2m.

- Mi fydd pob plentyn mewn grŵp (swigan cymdeithasol). Ni fydd y grwpiau yn newid yn ystod y cyfnod yma.

- Mi fydd 4 o blant ym mhob grŵp (swigan cymdeithasol) yn y dosbarth Derbyn a dim mwy na 9 mewn grwpiau yn y dosbarthiadau sydd yn weddill.

- Mi fydd y dosbarthiadau wedi eu rhannu i 4 grŵp (swigan cymdeithasol). Mi fydd un grŵp (ym mhob dosbarth) i mewn bob dydd am oddeutu hanner diwrnod (gweler isod) o ddydd Llun i ddydd Iau. Mi fydd yr ysgol ar gau ddydd Gwener (ag eithrio y Ganolfan Gofal i Weithwyr Allweddol) ar gyfer glanhau trylwyr ,ail drefnu adnoddau, paratoi pecynnau, ymateb i waith plant ar lein a.y.b

Dyma dabl o'r oriau agor am y pythefnos cyntaf

| Dosbarth | Cychwyn | Gorffen | Oriau |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn/ Reception** | **9:15yb** | **11.30yb** | **2awr a 30 munud** |
| **2. Blynyddoedd 1 a 2** | **9.00yb** | **12.00yb** | **3 awr** |
| **3. Blynyddoedd 3 a 4** | **8.45yb** | **12.45yp** | **4 awr** |
| **4. Blynyddoedd 5 a 6** | **8.30yb** | **1.00yp** | **4awr a 30 munud** |

Bydd pob pletyn yn derbyn 1 sesiwn (tua hanner diwrnod) bob wythnos am y pythefnos cyntaf. Mi fyddwn yn ehangu ar yr oriau yn ystod y pythefnos olaf.

- Ni fydd disgyblion gweithwyr allwedol yn cael mynychu'r ganolfan ac mynychu sesiwn dosbarth ar yr un diwrnod.
- Mi fydd pecynnau ar lein yn parhau yn ystod y cyfnod yma ac mi fydd athrawon yn ymateb i'r gwaith yn dilyn y drefn presenol.
- Mi fydd brodyr a chwiorydd yn mynychu yr ysgol ar yr un diwrnod (os nad ydych yn gofyn i ni wneud yn wahanol). Cewch ddanfod a casglu eich plant ar yr un amser pe dymunwch, cysylltwch â'r ysgol i drefnu hyn.
- Mi fydd pob dosbarth,coridor a'r toiledau yn cael eu glanhau yn drylwyr bob prynhawn.
- Rydym wedi ail drefnu pob dosbarth gan symud adnoddau a dodrefn er mwyn creu amgylchedd sydd mor ddiogel ag sy'n bosib i'ch plentyn.
- Mae yna system deithio un ffordd o amgylch yr ysgol er mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol. Mae'r lloriau wedi eu marcio yn glir y tu fewn ag y tu allan.
- Mae desgiau wedi eu gosod 2m oddi wrth ei gilydd ac mi fydd adnoddau personol ar gyfer pob plentyn unigol ar gael h.y. ni fydd plant yn defnyddio yr un beiros , pensiliau , pren mesur a plentyn arall.
- Ni chaniateir dod a unrhywbeth i'r ysgol o'r cartref (dim ond côt a sbectol)
- Rhaid i disgyblion sydd yn dioddef o asthma ddod a pwmp i'w gadw yn yr ysgol- ni fydd y pwmp yn mynd yn ôl a blaen o'r ysgol.

- Mi fydd toiledau ar wahân i bod dosbarth (mi fydd 5 a 6 yn defnyddio toiledau dynion ac anabl ). Un plentyn fydd yn mynd i'r toiled ar y tro. Mi fydd disgyblion yn golchi dwylo cyn ac ar ôl bod yn y toiled gyda sebon sydd wedi ei gymeradwyo.Mi fydd oedolyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud hyn ac yn glanhau ar ôl bob plentyn.

- Mi fydd pob grŵp (swigan cymdeithasol) yn mynd allan i chwarae ar wahân gydag oedolion sydd yn y dosbarth yn goruchwylio. Mi fyddent yn chwarae gemau lle nad oes angen iddynt gyffwrdd eraill.

- Mi fyddwn yn cymryd tymheredd eich plentyn cyn iddi/iddo ddod drwy ddrysau y dosbarth, mi fydd aelod o staff yn gwisgo PPE llawn pan yn gwneud hyn. Mi fyddwn yn galw'r teclyn yn Tomi Tymheredd ac mi fydd yn edrych fel pyped er mwyn peidio codi ofn ar blant. Mi fyddwn yn rhannu llun efo chi cyn i'r plant gychwyn ysgol.

- Ni fydd plant sydd â tymherdd uchel ac /neu yn tagu yn cael mynediad i'r ysgol. Awgrymwn eich bod yn cymryd tymheredd eich plentyn yn y bore cyn dod i'r ysgol, er mwyn osgoi siom.

- Rhaid i oedolyn (un yn unig) dywys plentyn/plant i'r ysgol, ni fydd plant yn cael cerdded i'r ysgol ar eu penau eu hunain.

- Mi fydd pob aelod o staff yn gwisgo tarian pen plastig wedi ei addurno er mwyn peidio codi ofn ar blant.

- Mi fydd pob plentyn o 7 i fyny yn cael hylif dwylo personol ar y ddesg ac mi fyddwn yn glahnau dwylo yn rheoliadd.

- Mi fydd yna 'hand gel dispensers' wrth ymyl pob mynedfa fel bod plant yn glanhau dwylo cyn ac ar ôl bod allan yn chwarae ar wrth ddod mewn a gadael yr ysgol.

- Pan yn danfon plant i'r ysgol bydd rhaid dilyn llwybr un ffordd gan sefyll ar y marciau llawr. Rydym wedi amrywio amser cychwyn a casglu fel bod yna ddim mwy na 9 o blant yn cyrraedd yr un pryd. Mi fydd aelodau o staff yn goruchwylio er mwyn sicrhau bod pawb yn dilyn y rheolau.

- Os y bydd plentyn yn cychwyn dangos symtomau yn ystod y dydd mi fyddwn mewn cyswllt â rhieni/gofalwyr yn syth ac yn rhoi plentyn i eistedd yn gyfforddus mewn ystafell ar wahan.

Mi fydd pecynnau ar lein yn  parhau y ac mi fydd athrawon yn ymtaeb i'r gwaith yn dilyn y drefn presennol.Eich dewis chi fydd gyrru eich plentyn/plant ai peidio, fydd yna ddim diryw os ydych yn dewis  peidio gyrru eich pletyn/plant.Bydd ychydig mwy o fanylion ddydd Gwener pan fyddwch yn derbyn gwybodaeth ynglyn a pa ddiwrnod bydd eich plentyn yn mynychu.

Cysylltwch â'r ysgol yfory os oes gennych ymholiadau pellach ar bob cyfrif. Diolch am eich cefnogaeth parhaus.

Lynne Jones  ( Pennaeth)